OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 No. 1710

Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

Gwahardd symud

4.—(1) Pan fo hysbysiad wedi'i roddi o dan erthygl 3, ni chaiff perchennog y cwch neu'r person sy'n gyfrifol amdano symud, neu ganiatáu symud, o'r fangre neu'r cerbyd lle mae'r cwch—

(a) unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, malurion cwch neu offer; neu

(b) unrhyw beth arall a allai ledaenu'r clefyd hysbysadwy neu'r pla hysbysadwy.

(2) Caiff perchennog y cwch neu'r person sy'n gyfrifol amdano, er gwaethaf darpariaethau paragraff 4 o'r Atodlen, gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu profi mewn labordy samplau o—

(a) unrhyw rannau o'r cwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn neu falurion cwch er mwyn penderfynu a ydynt wedi'u heintio â chlefyd hysbysadwy neu â phla hysbysadwy;

(b) unrhyw bla gwenyn er mwyn penderfynu a yw'n bla hysbysadwy;

(c) pridd o'r ardal o gwmpas y cwch er mwyn penderfynu a yw wedi'i heintio â phla hysbysadwy.

(3) Os cyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud yn yr hysbysiad hwnnw'n gymwys yn lle'r gwaharddiad ar symud ym mharagraff 4 o'r Atodlen.

(4) Os na chyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud ym mharagraff 4 o'r Atodlen yn gymwys hyd—

(a) y bydd person awdurdodedig wedi cadarnhau drwy hysbysiad ei fod wedi'i fodloni nad yw'r gwenyn wedi'u heintio â'r clefyd hysbysadwy neu nad yw'r pla hysbysadwy yn bresennol yn y cwch neu yn y fangre neu'r cerbyd lle mae'r cwch; neu

(b) y bydd perchennog y cwch neu'r person sy'n gyfrifol amdano wedi'i hysbysu fod canlyniadau profion ar samplau a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (2) yn cadarnhau nad yw'r deunydd yn y samplau wedi'i heintio neu nad yw'n bla hysbysadwy.

(5) Ni chaiff unrhyw berson sy'n rhoi hysbysiad o dan erthygl 3(2) symud neu ganiatáu symud unrhyw bla gwenyn neu unrhyw beth arall a allai ledaenu'r pla hysbysadwy o'r fangre neu'r cerbyd lle mae'r pla neu'r peth hwnnw.

(6) Caiff unrhyw berson sy'n rhoi hysbysiad o dan erthygl 3(2), er gwaethaf darpariaethau paragraff (5), gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer eu profi mewn labordy samplau o—

(a) unrhyw bla gwenyn er mwyn canfod a yw'n bla hysbysadwy;

(b) unrhyw beth arall, yn cynnwys pridd, er mwyn canfod a yw wedi'i heintio â phla hysbysadwy.

(7) Os cyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud yn yr hysbysiad hwnnw'n gymwys yn lle'r gwaharddiad ar symud ym mharagraff (5).

(8) Os na chyflwynir hysbysiad o dan erthygl 6(1) neu (2), bydd y gwaharddiad ar symud ym mharagraff (5) yn gymwys hyd—

(a) y bydd person awdurdodedig wedi cadarnhau drwy hysbysiad ei fod wedi'i fodloni nad yw'r pla hysbysadwy yn bresennol; neu

(b) y bydd y person a roddodd hysbysiad o dan erthygl 3(2) wedi'i hysbysu fod canlyniadau'r profion ar samplau a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (6) yn cadarnhau nad yw'r deunydd yn y samplau yn bla hysbysadwy neu nad yw wedi'i heintio â phla hysbysadwy.

(9) Rhaid pacio unrhyw sampl a gyflwynir o dan baragraff (2) neu (6) yn y fath fodd ag i osgoi hyd y mae'n bosibl y risg o ledaenu'r haint pan fydd yn cael ei gludo.